# Treth y Cyngor

## Anheddau Sydd Wedi'u Heithrio

**DOSBARTH N**

**ENW:**

**CYFEIRIOD:**

FFURFLEN EITHRIO RHAG TRETH CYNGOR AR EIDDO (LLETY PRESWYL MYFYRWYR)

WRTH YSTYRIED:

Bydd y ffurflen hon yn helpu'r Cyngor benderfynu a ddylai eich eiddo gael ei ryddhau rhag talu'r Dreth Gyngor. Bydd o gymorth i'r Cyngor Sir hefyd benderfynu o ba ddyddiad i ba ddyddiad y gellir caniatau hyn.

**CYN CWBLHAU'R FFURFLEN HON, DARLLENENWCH Y NODIADAU AMGAEDIG**

Mae'r eithrio'n berthnasol i unrhyw lety preswyl i fyfyrwyr amser llawn, gan gynnwys cyfnod gwyliau. Os nad oes hawl i aros ymlaen ar ddiwedd tymor, daw'r eithrio i ben, tan bod myfyrwyr amser-llawn eto'n byw yno, a bydd y rheolau atebolrwydd arferol mewn grym onibai am unrhyw gyfnod o eithrio sy'n berthnasol i lety yn Nosbarth C.

YDY'R LLETY HWN YN BRESWYL I UN NEU FWY O BOBL, A PHOB UN O'R RHAIN YN FYFYRWYR AMSER LLAWN? YDY/NAC YDY

YDY'R LLETY HWN YN BRESWYL I UN NEU FWY O FYFYRWYR YN YSTOD AMSER TYMOR? YDY/NAC YDY

ENWAU'R MYFYRWYR: _____

ENW'R SEFYDLIAD ADDYSGIADOL: _____

**DATGANIAD**

Rwy'n deall y gall y Cyngor ddymuno archwilio'r wybodaeth a roddais. Byddaf yn dweud wrth y Cyngor ar unwaith am newid yn statws yr eiddo. Rwy'n deall o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, y gellir erlyn unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth ffug neu gellir rhoi cosb. Cyn belled ag y gwn mae'r wybodaeth uchod yn wir ac yn gywir.

**Llofnod** _____ **Dyddiad** _____

N.B. Gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth yma i bwrpas perthnasol arll.

# Treth y Cyngor

# Anheddau Sydd Wedi’u Heithrio

**DOSBARTH N**

**NODIADAU YCHWANEGOL**

Mae'r eithrio hWn yn berthnasol pan fo'r deiliaid i gyd yn fyfyrwyr amser llawn mewn sefydliad addysg cydnabyddedig,(gweler isod), neu yn ymadawyr ysgol neu goleg; ymadawyr ysgol neu goleg i bwrpas Treth Cyngor, yw person 18 neu 19 oed sy'n ymadael ag ysgol neu goleg rhwng 1 Mai a 31 Hydref (yn gynhwysol), mewn unrhyw flwyddyn. Os bydd yr ymadawyr ysgol/coleg yn fyfyrwyr erbyn 1 Tachwedd, bydd yr eithrio'n parhau; os na, bydd Treth Cyngor yn ddyledus, ar wahân i unrhyw ostyngiadau ayyb. a all fod yn berthnasol.

Mae nyrsys dan hyfforddiant sydd ar gyrsiau amser llawn yn gymwys i'r eithrio hwn, ond nid felly nyrsys dan hyfforddiant traddodiadol. Os oes rhywun yn y llety nad sy'n fyfyriwr, dydy'r eithrio ddim yn berthnasol, ac os yw un o'r deiliaid yn peidio â bod yn fyfyriwr, mae'r eithrio'n gorffen ar y diwrnod y daeth ei g(ch)wrs i ben, neu pan adawodd ef/hi'r cwrs.

Yn dyddio o 1 Ebrill 1995, estynnwyd yr eithrio hwn i gynnwys priod neu ddibynnydd (heb fod yn fyfyriwr) sy'n byw yn y llety, nad sy'n ddinesydd Prydeinig ac yn cael ei rwystro gan amodau'i fisa mynediad i'r DU, rhag cymryd swydd gyflogedig a rhag hawlio budd-daliadau.

Sefydliadau addysgiadol cydnabyddedig yw:

1. Prifysgol (gan gynnwys coleg cyfansoddol, ysgol neu sefydliad arall o fewn y Brifysgol).

2. Sefydliad canolog neu goleg addysg yn yr Alban.

3. Coleg Addysg yng Ngogledd Iwerddon.

4. Sefydliad o fewn sector ariannu'r PCFC yn unol Ô Deddf Diwygio Addysg 1988.

5. Coleg Diwinyddol.

6. Unrhyw sefydliad arall yng Nghymru neu yn Lloegr a sefydlwyd, yn unswydd, neu yn bennaf, i ddarparu cyrsiau addysg bellach.

7. Unrhyw sefydliad arall yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a sefydlwyd, yn unswydd, neu yn bennaf, i ddarparu cyrsiau addysg bellach.

8. Unrhyw sefydliad Ô chydnabyddiaeth yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon neu, yng Nghymru, sydd Ô chydnabyddiaeth y Cyngor Ariannu Addysg Uwch yng Nghymru

Nid yw'r nodiadau hyn yn holl-gynhwysol. Os oes gennych unrhyw ymholiad pellach cysylltwch, os gwelwch yn dda, Ô'r adran Treth Cyngor ar y rhif ffôn a welir uchod.

DISGOWNT TRETH Y CYNGOR I FYFYRWYR - TYSTYSGRIF MYFYRIWR

Byddwyn yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r Dystysgrif Myfyriwr i gadarnhau i'r swyddfa hon pa un a ellid yn eich barn chi ystyried y sawl a enwir isod yn berson sy'n gymwys er mwyn hawlio anwybyddiad disgownt myfyriwr mewn perthynas a Threth y Cyngor neu beidio.

Enw'r Myfyriwr _____

Cyfeiriad _____

_____

Enw'r Sefydliad Addysgol _____

Dyddiad Cychwyn y Cwrs _____ Dyddiad Gorffen y Cwrs _____

Ticiwch Un os gwelwch yn dda:

Myfyriwr Amser Llawn _____ Myfyriwr Rhan-Amser _____

Cymhwyster _____

Nifer o wythnosau yn y lleoliad gwaith y flwyddyn academaidd _____

Diystyrir myfyrwyr at ddibenion disgownt os ydynt yn cwrdd ag unrhyw rai o'r meini prawf canlynol:-

Dosberthir myfyrwyr fel pobl sy'n ymgymryd a Chwrs Addysg amser llawn, (mewn Prifysgol, Coleg Addysg Uwch neu Goleg Addysg Bellach). Diffinnir cwrs amser llawn fel cwrs sy'n para am o leiaf un flwyddyn academaidd a rhaid i'r person fynychu'r cwrs am o leiaf 24 wythnos ac ymgymryd a chyfnodau astudio o ddim llai na 21 awr yr wythnos.

Rhaid i'r oriau astudio yn y coleg fod yn fwy na'r oriau a dreulir yn y lleoliad gwaith.

Mae cynorthwywyr iaith dramor sydd wedi'u cofrestru gyda'r Ganolfan Ymweliadau a Chyfnewidiadau Addysgol Canolog ac sy'n cael eu penodi'n gynorthwywyr iaith dramor mewn ysgol neu sefydliadau addysgol eraill yn cael eu hystyried yn Fyfyrwyr,

DATGANIAD - MAE'R RHAN HON I'W HARWYDDO GAN GYNRYCHIOLYDD Y COLEG/BRIFYSGOL

Deallaf, dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, y gall unrhyw yn sy'n rhoi gwybodaeth anwir gael ei erlyn neu wynebu gosod dirwyon. Hyd y gwn i mae'r wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn wir a chywir.

Arwyddwyd _____ Dyddiad _____

Arwyddwyd yn rhinwedd fy swydd fel _____

STAMP Y COLEG/BRIFYSGOL: